**LC630**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2003**

Mae'r rhain yn darparu fframwaith rheoliadol newydd ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r mân-ddiffygion drafftio a ganlyn. Byddai'n briodol cywiro'r rhain drwy femorandwm cywiriadau ac maent wedi'u cydnabod ar ran y Gweinidog priodol fel rhai sydd angen eu cywiro.

**Dyfynnu pwerau**

Dylai is-adran (2) o adran 9 Deddf 1976 gael ei chynnwys, ynghyd â darpariaethau perthnasol Deddf Safonau Gofal 2000. Mae'r ffaith bod y rheoliadau'n cael eu gwneud dan Ddeddf 2000 yn cael ei nodi ym mrawddeg agoriadol y nodyn esboniadol.

**Rheoliadau 1(2) a 2(5)**

Ceir gorgyffwrdd ac elfen o anghysondeb rhwng y ddwy ddarpariaeth hon. Gan fod y darpariaethau yn Rhan 4 yn estyn y tu hwnt i wasanaethau awdurdodau lleol a chan y gallai rheoliad 14(2)(e) fod yn gymwys mewn perthynas ag awdurdod lleol yn Lloegr, y mae angen dileu rheoliad 2(5).

**Rheoliad 2(1) – “gwasanaeth mabwysiadu”**

Mae'r geiriau “ac mewn perthynas ag …. yr awdurdod hwnnw” yn ailadrodd yr hyn sydd eisoes wedi'i ddweud yn y diffiniad.

**Sylwadau**

**Rhagymadrodd – troednodyn (a)**

Mae'r datganiad bod adran 9(3) wedi cael ei diwygio gan Ddeddf 2000 yn anghywir. Dylai'r troednodyn nodi bod adran 9(3A) wedi cael ei hychwanegu gan Ddeddf 2000. Hefyd, dylai'r troednodyn nodi bod isadrannau (2) a (3) wedi cael eu diwygio gan Ddeddf 2002.

**Pwyntiau Teipiograffyddol**

Tynnwyd nifer o bwyntiau teipiograffyddol a phwyntiau tebyg i sylw'r rheini sy'n gyfrifol am brosesu'r rheoliadau hyn.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

25 Chwefror 2003